Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref KS/07679/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

09 Medi 2019

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Awst ynghylch y cais am wybodaeth ysgrifenedig er mwyn eich helpu i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21. Fel y nodwyd gennych mae ansicrwydd sylweddol o'i fath nas gwelwyd o'r blaen o ran amseriad y gyllideb eleni, ac mae hyn wedi bod yn heriol tu hwnt wrth fynd ati i ddatblygu cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol.

Ar 9 Awst, cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n cynnal cylch gwario 'carlam' blwyddyn, i'w gwblhau ym mis Medi, gydag adolygiad o wariant am sawl blwyddyn sydd i'w gynnal yn 2020. Ar 15 Awst, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Ddatganiad Ysgrifenedig yn ymateb i hyn. Cadarnhaodd hynny fod peth ansicrwydd o hyd am yr hyn y mae'r cylch gwario carlam ym mis Medi yn ei olygu o ran cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllideb yr Hydref. Bydd yn rhoi diweddariad pellach ar y goblygiadau i Gymru pan fydd manylion pellach ar gael.

Unwaith y bydd gennyf gadarnhad pellach, edrychaf ymlaen at gael rhoi dyddiadau mwy pendant i chi ar gyfer fy sesiwn dystiolaeth lafar i'w chynnal ar adeg a fydd yn gyfleus i bawb. Yn y cyfamser, rwy'n ddiolchgar am ddealltwriaeth barhaus y Pwyllgor ar y mater hwn, ac yn croesawu'r rhybudd ymlaen llaw o'r wybodaeth ysgrifenedig y mae ei hangen arnoch i lywio'r gwaith o graffu ar y gyllideb.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.